

# Protocol Cludiant i Ddysgwyr Medi 2020 (sefydliadau prif ffrwd ac ADY)

## Cyflwyniad

Mae'r protocol hwn yn cyflwyno disgwyliadau a chanllawiau allweddol i rieni / gofalwyr, eu plant a chontractwyr cludiant a'u staff.

Mae'r protocol yn adlewyrchu canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n berthnasol i holl ysgolion a sefydliadau yn y sir ac mewn colegau, ac i'w ddefnyddio gan gontractwyr sy'n cludo dysgwyr.

Sylwch y gallai newidiadau i ganllawiau cenedlaethol effeithio ar y protocol hwn.

## Rhieni a Dysgwyr

Cyfrifoldeb y rhieni yw:

- (a) Sicrhau nad yw dysgwyr yn teithio os yw unrhyw un ar yr aelwyd yn dangos symptomau, pan fydd y dysgwr neu ddysgwyr yn gorfod aros ar wahân am y 10 diwrnod penodedig oni bai fod y tîm Profi Orlhain Diogelu yn cysylltu (pan fydd yn 14 diwrnod).
- (b) Sicrhau bod gan eich plentyn neu blant 11 oed neu hŷn gyflenwad o orchuddion wyneb cyn teithio bob bore a phrynhawn. Mae'n ofynnol i'ch plentyn neu blant 11 oed neu hŷn wisgo gorchudd wyneb heblaw rhai a eithriwyd am resymau meddygol.
- (c) Cydnabod na fydd dim ymddygiad gwael yn dderbyniol ar gludiant (gan gynnwys amgylchiadau pan nad yw dysgwyr yn dilyn cyfarwyddiadau a roddwyd).
- (d) Sicrhau bod dysgwyr yn golchi eu dwylo (neu fod rhieni'n gwneud hynny i ddysgwyr iau) neu'n defnyddio glanweithydd o gryfder priodol i'r Safon Brydeinig briodol yn drwyadl cyn gadael eu cartref neu'r ysgol i fynd i'w cerbyd.
- (e) Atgoffa dysgwyr i fyrddio a disgyn o gludiant mewn un llinell, gyda'r rhai dros 11 oed yn cadw 2m o bellter bob amser, wrth aros a chiwio.
- (f) Atgoffa dysgwyr bod rhaid iddynt sicrhau eu bod yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan eu gyrrwr neu staff yr ysgol / coleg.
- (g) Atgoffa dysgwyr y bydd sedd benodol yn cael ei chlustnodi iddynt yn eu cerbyd a bod dysgwyr yn gorfod aros yn y sedd honno ar hyd y daith. Bydd angen trefniadau gwahanol ar gyfer y rhai sy'n teithio ar wasanaethau bysiau lleol.
- (h) Cofio y bydd y Cod Teithiau Ysgol a'r fframwaith ymddygiad yn dal i weithredu ac y bydd unrhyw ddysgwyr sy'n camymddwyn, yn peryglu neu'n achosi anaf neu ddifrod i'r cerbyd, y gyrrwr neu deithwyr neu sy'n bygwth iechyd a diogelwch teithwyr eraill neu'r cerbyd mewn unrhyw fodd yn cael eu gwahardd ar unwaith o Gludiant Ysgol Sir Ddinbych.

## Seddau Priodol ar Gerbydau Cludo a Defnyddio Gorchuddion Wyneb

Math o Gludiant	Cerbyd neilltuol i gludo dysgwyr	Gwasanaeth bysiau ar gael i'r cyhoedd
Ysgolion cynradd	Holl seddau ar gael i'w defnyddio heblaw'n union wrth ymyl y gyrrwr neu mewn taccsis lle mae seddau'n wynebu ei gilydd	Amherthnasol

# Protocol Cludiant

	Nid oes angen gwisgo gorchuddion wyneb	
Ysgolion uwchradd a cholegau	Holl seddau ar gael i'w defnyddio heblaw'n union wrth ymyl y gyrrwr neu mewn tacsis lle mae seddau'n wynebu ei gilydd Mae gorchuddion wyneb yn ofynnol	Llwytho yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithredwr.  Mae gorchuddion wyneb yn ofynnol
Ysgolion ADY (cynradd ac uwchradd)	Nid oes angen gwisgo gorchuddion wyneb	

Ar gerbydau cludiant ysgol unswydd dros wyth sedd, bydd dysgwyr yn llwytho o'r cefn i'r blaen ac yn dadlwytho o'r blaen i'r cefn.

Bydd angen i ddysgwyr â hawl i gludiant di-dâl sy'n teithio ar wasanaethau bysiau lleol ddilyn cyfarwyddyd y gweithredwr priodol.

## Defnyddio Gorchuddion Wyneb

Mae'r rhain yn ofynnol i holl ddysgwyr mewn addysg uwchradd a thrydyddol waeth ba gerbyd y teithiant arno.

Mae'n ofynnol i'ch plentyn 11 oed neu hŷn wisgo gorchudd wyneb tair haen bob amser wrth deithio. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gan eich plentyn gyflenwad o orchuddion wyneb cyn teithio bob bore a phrynhawn.

Fodd bynnag, nid oes angen i rai dysgwyr wisgo gorchudd wyneb. Mae hyn yn cynnwys y rhai y byddai gwneud hynny'n creu perygl meddygol neu'n peri gofid iddynt ac mewn rhai sefyllfaoedd lle bo gan ddysgwyr anghenion dysgu ychwanegol.

Fe all gyrwyr wisgo gorchuddion wyneb os ydynt hwy neu eu cyflogwr yn teimlo bod hyn o fudd a lle caiff hyn ei asesu'n unigol. Fe all gyrwyr fod eisiau defnyddio glanweithydd yn aml.

Pan fo gyrwyr yn gorfod cynorthwyo gyda chau gwregysau diogelwch plant bach neu llwytho cadeiriau olwynion, fe all fod yn briodol iddynt ddefnyddio gorchuddion wyneb ynghyd â defnyddio glanweithydd dwylo'n aml a/neu fenig addas os yw eu cyflogwr yn cyfarwyddo hynny ar ôl asesu peryglon.

## Aros mor Ddiogel ag y bo Modd

Dylai dysgwyr gymryd y rhagofalon canlynol:

- Os ydych yn 11 neu hŷn, cadw 2m oddi wrth bobl oddi allan i'ch aelwyd eich hun wrth aros am eich cludiant
- Wynebu oddi wrth bobl eraill wrth ddefnyddio ac aros am gludiant
- Ceisio cyffwrdd cyn lleied o arwynebau ag y gallwch
- Golchi neu lanhau eich dwylo gyda glanweithydd priodol am yr amser a bennwyd cyn byrddio cludiant
- Ar unwaith wedi gorffen eich taith, golchi neu lanweithio eich dwylo eto mor fuan ag y gallwch
- Os oes gennych symptomau, sicrhau nad ydych yn defnyddio cludiant nac yn mynd i'r ysgol
- Sicrhau eich bod yn dilyn holl gyfarwyddiadau'r gyrwyr a staff, gan eistedd ac aros yn y sedd a neilltuwyd yn ystod y daith
- Os byddwch yn tynnu'r gorchudd wyneb wrth adael y cludiant, rhaid ei roi yn y bin a ddarparwyd.
- Bod â chynllun wrth gefn os na fydd y cludiant yn cyrraedd (e.e. os yw'r gyrrwr yn sâl ar fyr rybudd).

If your child develops symptoms at school, you will need to make arrangements for your child to be collected. Symptomatic children shall not be permitted to use learner transport or local bus services.

## I'w Ddisgwyl gan Ddysgwyr

Bydd dysgwyr yn byrddio'n dawel ac un ar y tro, heb wthio.

Wrth ganiatáu i'w plant ddefnyddio cludiant dysgwyr mae rhieni'n derbyn ac yn cytuno â'r telerau yn y protocol hwn. Bydd angen i rieni rannu'r ddogfen hon gyda'u plant a'i thrafod gyda nhw.

Ar sail iechyd y cyhoedd, bydd polisi dim goddefgarwch o ran ymddygiad a seddau ar gludiant dysgwyr, gan gynnwys mewn arosfeydd, mewn sefydliadau addysg ac wrth fyrddio a disgyn. Bydd dysgwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion hyn yn colli eu cludiant ar unwaith.

Rhaid i ddysgwyr gydymffurfio â gofynion a chyfarwyddyd staff ysgol / coleg pan fyddant ar y safle.

Bydd angen i rieni drafod cynllun wrth gefn gyda'u plant os na fydd gyrrwr yn codi dysgwr o safle bysiau (e.e. os aeth y gyrrwr yn sâl a'r cludiant wedi cael ei ddileu ar y munud olaf o ganlyniad) neu os nad yw enw'r plentyn ar restr y Cyngor o'r rhai sy'n cael teithio. Dylai ddysgwyr uwchradd a choleg sicrhau eu bod ganddynt eu hawlen deithio arnynt bob amser. Dim ond y rhai sydd â hawl sy'n cael defnyddio cludiant ysgol unswydd.

Os nad ydych wedi derbyn hawlen deithio neu alwad ffôn / llythyr cadarnhau yn benodol ynghylch cludiant eich plentyn, ni fydd sedd yn cael ei neilltuo i'ch plentyn a bydd yn methu teithio. Mae'r gyrrwr dan gyfarwyddyd i gymryd dim ond y ddysgwyr sydd ar y rhestr. Mae hyn am resymau iechyd y cyhoedd. Peidiwch â chaniatáu i'ch plentyn fynd i gyfarfod y cerbyd. Os gwnewch hynny, ac os gadewir eich plentyn ar fin y ffordd, bydd angen sicrhau bod eich plentyn yn gwybod beth i'w wneud a dylech drafod hyn gyda'ch plentyn.

Mae angen i ni gynnal rhestr gywir o ddysgwyr er mwyn gallu allu cydweithredu gyda'r trefnau Profi Olrhain Diogelu ac, os bydd angen, byddwn yn rhannu eich manylion gyda'r asiantaethau priodol sy'n helpu atal ymlediad y coronafeirws.

Pan fo plant yn dangos symptomau, ni ddylent ddefnyddio cludiant dysgwyr na mynd i'r ysgol am 10 diwrnod cyfnod neu 10 diwrnod ar ôl prawf cadarnhaol. Os yw aelod arall o'r aelwyd yn dangos symptomau, ni ddylai plant ddefnyddio cludiant ysgol na mynd i'r ysgol am 14 diwrnod.

Bydd angen i holl ddysgwyr olchi eu dwylo'n drwyadl yn unol â chanllawiau cenedlaethol cyn gadael eu cartrefi i fynd ar y cludiant dysgwyr ac eto yn y prynhawn yn yr ysgol cyn dychwelyd.

Os bydd dysgwr yn cyrraedd safle bysiau yn y bore / taith i mewn yn dangos symptomau COVID-19 cydnabyddedig neu'n barod i deithio gydag arwyddion COVID-19, bydd angen i'r gyrrwr gysylltu â'r cyflogwr cyn caniatáu i'r dysgwr deithio.

Os bydd plentyn yn dechrau dangos symptomau yn yr ysgol, gan gynnwys yn ystod y cyfnod yn union ar ôl y gloch derfynol (h.y. cyn byrddio cerbyd cludo dysgwyr), ni fydd yn cael byrddio'r cerbyd. Yn hytrach, bydd ysgolion yn defnyddio'u polisïau eu hunain ar gyfer cyfyngu ar feirws a delio â'r dysgwr heb fyrddio'r cerbyd. Bydd angen i rieni gasglu eu plentyn.

## I'w Ddisgwyl gan Gontractwyr

Bydd gan gontractwyr asesiad risg diwygiedig a mwy trylwyr a dulliau gweithio diogel perthnasol i ddefnyddio cerbydau a chyflogi gyrrwyr yn ystod coronafeirws. Mae'r Cyngor wedi darparu asesiad risg enghreifftiol i gynorthwyo contractwyr. Bydd asesiad y contractwyr yn cynnwys arferion da yn eiddo contractwyr. Rhaid i gontractwyr rannu eu hasesiadau gyda'r Cyngor.

Er mwyn lleihau posibilrwydd haint, bydd contractwyr, fel arfer, yn neilltuo'r un gyrrwr a'r un cerbyd i bob contract.

Bydd gyrrwyr yn ystyried eu hiechyd eu hunain cyn gwneud pob taith cludo dysgwyr. Bydd gyrrwyr yn ymwybodol o asesiadau risg a dulliau gweithio diogel eu contractwyr a chanllawiau cenedlaethol.

# Protocol Cludiant

Ar gerbydau cludiant ysgol unswydd dros wyth sedd, bydd gyrwyr yn llwytho teithwyr o'r blaen i'r cefn a dadlwytho o'r blaen i'r cefn.

Ar fysiau nad ydynt ar wasanaeth neu am gerbydau heb sgrin gymeradwy, os bydd gweithredwyr yn ystyried bod hynny'n briodol, wedi ei ddiogelu eu cerbyd, fe gaiff gyrwyr adael eu caban i aros 2m oddi allan i'r cerbyd tra bydd dysgwyr yn byrddio a disgyn. Mae hyn i'w gymeradwyo. Bydd angen i ddysgwyr ganiatáu i'r gyrwr ymadael trwy gadw o leiaf 2m o'r fynedfa.

Er mwyn cynorthwyo gyda gorfodi a chydymffurfio â'r uchod, bydd TCC gweithredol yn holl gerbydau sy'n dal dros 16 o seddau. Rhaid i gontractwyr hysbysu'r Cyngor os nad yw felly. Bydd peidio â darparu offer gweithredol o'r fath mewn cerbyd yn peri didyniadau ariannol fel y pennwyd dan Amodau'r Contract.

Bydd parcio mewn sefydliadau yn ôl cyfarwyddyd ysgolion a cholegau.

Bydd ysgolion yn cael eu hannog i sicrhau bod niferoedd priodol o staff ar gael i gyfarfod cerbydau / dysgwyr ac, wrth iddynt gyrraedd, bydd staff yn eu hebrwng o'r cerbyd i'r adeilad a, ar gyfer dychwelyd yn y prynhawn, o'r adeilad i'r cerbyd contract yn nhrefn byrddio.

Tra byddant mewn eiddo addysg, fel ymhobman arall, rhaid i yrwyr aros o leiaf 2m oddi wrth holl yrwyr eraill a staff.

Dylid awyru cerbydau'n naturiol trwy ddefnyddio ffenestri agored neu, pan fyddant ar gael, ffenestri to yn hytrach na rheoli hinsawdd, aerdymheru neu systemau gwthio aer sy'n ailgylchu. Dylai gyrwyr coetsis nad oes ganddynt ffenestri agoradwy sicrhau nad yw aerdymheru'n ailgylchu aer.

Fe all ysgolion fynnu amserau dechrau a gorffen cyfnodol, gan gadw at gyfnodau cyrraedd caeth. Bydd awdurdodau lleol ac ysgolion yn hysbysu contractwyr o ganlyniad. Dylai gyrwyr fod dan gyfarwyddyd i beidio â pheryglu'r amserau hyn trwy aros am ddysgwyr hwyr, a dylai'r contractwr hysbysu'r staff cludiant ar unwaith os nad oes modd cadw at amserau cyrraedd penodedig.

## Glanhau

Bydd contractwyr yn sicrhau bod holl gerbydau'n cael eu glanhau'n drwyadl unwaith y dydd i safon uwchlaw'r arferol. Arwynebau sydd angen sylw arbennig yw'r olwyn lywio; brêc llaw, offer switsio a ffasgia; dyrnau drws (oddi mewn ac oddi allan); dyrnau / botymau ffenestri; seddau ac arwynebau caled o gwmpas seddau lle bu rhywun yn eistedd.

Mae nwyddau glanhau arferol yn ddigonol at y diben, gan gynnwys sychiadau diheintiol hawdd eu gwared, er bod "niwlo" yn dal i fod yn ddull glanhau ychwanegol sy'n cael ei ffafrio.

Yn ogystal, bydd contractwyr yn sicrhau bod holl fannau cyffwrdd mewnol ac allanol yn cael eu sychu rhwng teithiau.

Dylai gyrwyr olchi eu dwylo'n aml neu ddefnyddio hylif diheintio addas a ddylai fod yn 70 y cant alcohol o leiaf. Rhaid i yrwyr beidio â gadael nwyddau glanhau / glanweithydd lle gall teithwyr eu cyrraedd.

## Gwregysau Diogelwch

Ble bynnag y bo modd, dylai dysgwyr fod yn gyfrifol am gau eu gwregysau diogelwch eu hunain. Efallai na fydd plant ifanc neu'r rhai gydag anghenion ychwanegol penodol yn gallu gwneud hyn bob amser. Dan y fath amgylchiadau, pan fo plant yn cael eu codi o'u cartrefi, dylai rhieni sicrhau bod eu plant wedi'u cau'n ddiogel. Dylai aelod o staff yr ysgol wneud hynny yn yr ysgol.

Serch hynny mae'r cyfrifoldeb cytundebol yn dal i aros gyda gyrwyr a, lle byddai disgwyl i yrwyr gynorthwyo teithwyr, dylai contractwyr asesu sut fydd gyrwyr yn gwneud hyn a pha gamau ychwanegol sy'n ofynnol o ganlyniad.